Eglwys Gadeiriol Llandaf, y Tra Pharchedig Jason Bray (Deon)
Dydd Sadwrn 23 Tachwedd: Clement
Datguddiad 11:1-12; Salm 144:1-10; Luc 20:27-40
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kita-Kanto – Y Nippon Sei Ko Kai
Yr Esgob Mary Stallard, Esgob Llandaf a staff Llys Esgob

Ein Stori Lawen
Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd
EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

24 Tachwedd 2024
Teyrnas IV – Crist y Brenin

10.30am Y Foreol Weddi ar gân a Phregeth ac Ysgol Sul
Salm: 72:1-7
Darlleniadau: Daniel 5
Ioan 6:1-15
Darllenwyr: Margaret Hughes a Gwynn Matthews
Emynau: 254 (Heathlands); 110 (Truro); 306 (Bryn Myrddin)

6.00pm Y Cymun Bendigaid a Bedydd Esgob
Darllenwyr: Elena Hughes / Siwan Seaman
Ceir yr emynau a'r drefn gwasanaeth yn y llyfryn

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Mel Amos a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Nos Fawrth 26 Tachwedd 2024
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 27 Tachwedd 2024
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 1 Rhagfyr 2024
Adfent I
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Darlleniadau a Cherddoriaeth ar gyfer yr Adfent

YR YSGOL SUL
Cynhelir yr Ysgol Sul heddiw yn ystod y gwasanaeth 10.30am. Does dim Ysgol Sul y Sul nesaf.
HEDDIW
Mae cerdyn yr Adfent a'r Nadolig yn cael ei ddosbarthu heddiw. Mynnwch eich copi cyn gadael yr eglwys.
HENO: BEDYDD ESGOB
Heno, byddwn yn croesawu'r Esgob i EDS ar gyfer gwasanaeth bedydd esgob am 6.00pm. Dewch i gefnogi'r ymgeiswyr. Croeso i bawb.
PWYSIG: DYDD MAWRTH
Bydd gweithwyr yn dod i lanhau cafnau'r eglwys dydd Mawrth 26 Tachwedd. Oherwydd hyn, ni fydd modd parcio ar y llain parcio ar y diwrnod hwn.
IS-BWYLLGOR CENHADU A BUGEILIO
Cynhelir cyfarfod o'r is-bwyllgor Cenhadu a Bugeilio nos Fawrth 26 Tachwedd yn neuadd yr eglwys am 7.00pm.
SUL YR ADFENT
Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth o ddarlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer yr Adfent, nos Sul 1 Rhagfyr am 6.00pm. Bydd côr yr eglwys yn canu.
CYFARFOD CYMDEITHASU
Cynhelir cyfarfod nos Fawrth 3 Rhagfyr yn yr Eglwys am 7.15pm i drefnu rhaglen o weithgareddau cymdeithasol ar gyfer 2025. Croeso i bawb ddod â'i syniadau i'r cyfarfod hwn.
GWASANAETH COFFA
Cynhelir gwasanaeth Coffa i gofio am bawb a fu farw'n ddigartref yn Eglwys y Santes Fair Trebiwt, prynhawn Mercher 27 Tachwedd am 3.00pm.
GWASANAETH UNDEB Y MAMAU
Cynhelir gwasanaeth esgobaethol "Mawl yr Adfent" Undeb y Mamau prynhawn Iau 5 Rhagfyr am 2.00pm yn EDS. Yr Esgob fydd yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
CINIO NADOLIG
Byddwn yn cynnal ein cinio Nadolig fel eglwys eleni dydd **Sul 15 Rhagfyr** yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd am 12.30pm. Bydd cinio dau gwrs yn £22 a chinio thri chwrs yn £26 i oedolion ac yn £16 neu £20 i blant o dan 12 mlwydd oed. Mae'r fwydlen yng nghefn yr eglwys.
PANTO
Os oes digon o ddiddordeb, yr ydym yn bwriadu trefnu ymweliad â'r panto yn y Theatr Newydd nos Iau 2 Ionawr am 7.00pm. Bydd y tocynnau rhwng £35 a £45. Os oes gennych ddiddordeb a fyddech gystal â rhoi eich enw ar y daflen yng nghefn yr eglwys.
O DEUWCH AC ADDOLWN
Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cyhoeddi cyfres o sesiynau defosiynol dwyieithog ar-lein i'n tywys ni trwy'r Adfent a'r Nadolig. Mae 6 sesiwn gyda fideo sy'n para oddeutu 15munud. Os hoffech ragor o wybodaeth ewch i:
https://www.churchinwales.org.uk/en/evangelism/o-come-let-us-adore-him-advent-course-2024/
CLOCH DEWI
Byddwn yn cyhoeddi rhifyn o Cloch Dewi cyn y Nadolig. Os hoffech gyfrannu deunydd megis erthygl, pwt bach, lluniau ac yn y blaen, y dyddiad cau yw dydd Gwener 29 Tachwedd. Anfonwch eich cyfraniadau at Wyn Mears: wyn@wynmears.com
CANOLFAN GLYD Y TABERNACL
Yr ydym yn casglu dillad ar gyfer Canolfan Glyd y Tabernacl yn ystod mis Tachwedd. Gofynnir am hosanau a dillad isaf o unrhyw faint ar gyfer dynion yn bennaf. **Heddiw fydd y cyfle olaf i gyfrannu**. Os am ragor o wybodaeth mynnwch air â Judith Poulson.
AGOR YR EGLWYS Dydd Mercher 27 Tachwedd
Yn gwarchod yr eglwys:
Beti Davies a Dilys Jones

Darlleniadau a Gwyliau

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Eglwys Anglicanaidd De America
- Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf, y Parchedig Richard Green, Arweinydd.

Dydd Llun 25 Tachwedd: John Donne
Datguddiad 14:1-5; Salm 24:1-6; Luc 21:1-4
Gweddïwn: Esgobaeth Kindu – Province de L'Eglise Anglicane Du Congo
Deoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Ganon Ian Hodges (Deon Bro)
Dydd Mawrth 26 Tachwedd:
Datguddiad 14:14-20; Salm 96; Luc 21:5-9
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kinkiizi – Eglwys Talaith Wganda
Ardal Gweinidogaeth Cymoedd Llyfni ac Uwch Afan, y Parchedig Rick Gratton, Arweinydd
Dydd Mercher 27 Tachwedd:
Datguddiad 15:1-4; Salm 98; Luc 21:10-19
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kinshasa – Talaith de L'Eglise Anglicane Du Congo
Ardal Gweinidogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Mark Broadway, Arweinydd
Dydd Iau 28 Tachwedd:
Datguddiad 18:21 -19:3; Salm 100; Luc 21:20-28
Gweddïwn dros: Esgobaeth Gogledd Kirinyaga – Eglwys Anglicanaidd Cenia
Ardal Gweinidogaeth Margam, y Parchedig Jon Durley, Arweinydd
Dydd Gwener 29 Tachwedd: Gwylnos a Dydd Gweddi dros Genhadaeth yr Eglwys
Datguddiad 20:1-4, 11-21:4; Salm 84; Luc 21:29-33
Gweddïwn dros: Esgobaeth Kisangani – Province de L'Eglise Anglicane Du Congo